
Sut y mae modd i chi helpu gartref?

Siaradwch eich iaith gyda'ch plant gartref ac yn gyhoeddus.

Anogwch nhw i ddefnyddio iaith y cartref gyda chi.

Gadewch iddyn nhw deimlo'n falch o'u hiaith a'u diwylliant, yn hytrach nag embaras.

Anogwch eich plant i siarad iaith eu cartref yn yr ysgol â phlant ac oedolion eraill sy'n siarad yr un iaith â nhw.



Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau am gynnwys y daflen yma, cysylltwch â'r ysgol i drefnu apwyntiad gydag aelod o'r garfan Saesneg fel iaith Ychwanegol.

**GWASANAETH CYFLAWNIAD
LLEIAFRIFOEDD ETHNIG**

**CANOLFAN MENTER Y CYMOEDD,
PARC HEN LOFA'R NAVIGATION,
ABERCYNON,
RHONDDA
CYNON TAF
CF45 4SN**

FFÔN: 01443 744333



**Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd
Ethnig**



**Helpu eich plentyn i ddysgu trwy
gyfrwng y Saesneg**

Helpu eich plentyn i ddysgu trwy gyfrwng y Saesneg

Beth yw Saesneg fel iaith Ychwanegol?

Os yw eich plentyn yn siarad neu'n dod i gysylltiad ag iaith arall gartref, yna mae'n dysgu Saesneg yn ychwanegol at iaith ei gartref.

Beth yw'r Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig?

Dyma gangen o'r Awdurdod Addysg Lleol yn Rhondda Cynon Taf.

Mae'r Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig wedi ymrwymo i godi safonau cyflawniad plant lleiafrifoedd ethnig yn Rhondda Cynon Taf.

Mae'r Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig yn cyflogi staff i gefnogi plant sydd â Saesneg fel ail iaith yn ysgolion Rhondda Cynon Taf.

BETH MAE YMCHWIL YN EI DDWEUD WRTHYN NI AM BLANT SY'N DYSGU SAESNEG FEL IAITH YCHWANEGOL?



Mae ymchwil wedi dangos: Mae'n cymryd dwy neu dair blynedd i ddysgwyr sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol ddatblygu iaith gymdeithasol a gaiff ei defnyddio mewn sefyllfaoedd ar y buarth chwarae / ar y stryd / ystafell ddosbarth.

Mae'r rhain yn cael eu galw'n Sgiliau Rhyngbersonol a Chyfathrebu Sylfaenol.

Gall gymryd pump i saith mlynedd neu ragor i ddatblygu'r iaith sydd ei hangen i ymdopi â gofynion llythrennedd yr ystafell ddosbarth.

Mae hyn yn cael ei alw'n Hyfedredd Iaith Academaidd Gwybyddol.

Helpu eich plentyn i ddysgu trwy gyfrwng y Saesneg

Mae canolbwyntio ar iaith y cartref yn ffordd werthfawr o gefnogi dysgu. NID yw'n rhwystr. Mae sgiliau a gaiff eu dysgu mewn un iaith yn drosglwyddadwy i iaith arall.

Un allwedd i lwyddiant cyflym wrth ddysgu ail iaith neu iaith ychwanegol yw cael dealltwriaeth dda o iaith y cartref.

Er y gall rhai plant ymddangos fel eu bod nhw'n dysgu iaith mewn ffyrdd gwahanol, mae disgyblion yn dysgu Saesneg yn yr un modd, waeth beth fo'u cefndir iaith gyntaf. Mae cyfnod tawel goddefol yn rhan naturiol o'r broses o gaffael iaith ychwanegol i rai disgyblion.

Nid yw disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn cael eu hystyried fel rhai sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig oherwydd bod iaith y cartref yn wahanol i iaith yr ysgol yn unig.

Peidiwch â rhoi'r gorau i ddefnyddio iaith y cartref er mwyn defnyddio'r Saesneg pan fydd eich plant yn dechrau yn yr ysgol. Mae modd i ni ddysgu Saesneg iddyn nhw, ond mae modd i ***chi*** ddysgu eich iaith chi iddyn nhw.

Yn Rhondda Cynon Taf, rydyn ni'n gwerthfawrogi'r **HOLL** ieithoedd y mae plant yn eu siarad. Rydyn ni'n annog **POB UN** o'n disgyblion sy'n dysgu'r Saesneg fel iaith ychwanegol i ddefnyddio iaith eu cartref pan fyddan nhw eisiau gwneud hynny yn yr ystafell ddosbarth ac ar y buarth chwarae.

